

JONES, HUGH (1837 - 1919), gweinidog Wesleyaidd

Enw: Hugh Jones
Dyddiad geni: 1837
Dyddiad marw: 1919
Priod: Mary Jones (née Williams)
Plentyn: John Arthur Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Wesleyaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awdur: Edward Tegla Davies

Ganwyd yng Nghaerfarnon, 20 Ionawr 1837. Bu am dymor byr yn Ysgol Genedlaethol y dref. Prentisiwyd ef yn wehydd. Dechreuodd bregethu yn 1855. Derbyniwyd ef i'r weinidogaeth yn 1858, ac i waith cylchdaith yn 1859. Llafuriodd ym Mangor (1859), Lerpwl (1860), Llanfyllin (1861), Llansilin (1863), Tregarth (1866), Lerpwl (Chester Street) (1869), Dinbych (1872), Caerfarnon (1875), Caer (1878), y Rhyl (1880), Lerpwl (Shaw Street) (1883), Tregarth (1886), Lerpwl (Mynydd Sion) (1887), Lerpwl (Shaw Street) (1890), Tregarth (1893), Lerpwl (Mynydd Sion) (1896), Bangor (1899). Penodwyd ef yn oruchwyliwr y Llyfrfa (1902). Ymneilltuodd yn 1911, a bu farw 23 Mai 1919. Priododd Mary, merch y Parch. John Williams (Methodistaidd Calфинаidd), Llansilin. Mab iddo oedd John Arthur Jones, gol. *Y Calcutta Statesman*.

Etholwyd ef yn ysgrifennydd y dalaith (1886), cadeirydd y dalaith (1893), yn aelod o Gant Cyfreithiol ei gyfundeb (1893), llywydd y gymanfa (1900), cynrychiolydd i'r gynhadledd Ecumeniaidd Fethodistaidd (1901), llywydd Cyngor Eglwysi Efyngylaidd Gogledd Cymru (1904), a llywydd Mudiad Canmlwyddiant Wesleyaeth Gymreig (1900). Traddododd y Ddarlith Daleithiol (1893). Derbyniodd dysteb i ddathlu jiwibili ei weinidogaeth (1909).

Ysgrifennai'n gyson i'r *Eurgrawn*, o 1863 ymlaen. Cyhoeddodd gofiannau **Samuel Davies II** a R. T. Owen, *Esboniad ar Jeremeia ac Epistolau Ioan*, llawlyfr ar *Ymneilltuath*, *Y Goleuni Cristionogol*, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (4 cyf.). Golygodd *Y Winllan* (1883-5), a'r *Eurgrawn* (1902-11). Cynrychiolai'r cyfundeb ym mhob mudiad cenedlaethol, yr oedd yn un o bregethwyr grymusaf ei oes, yn drefnydd eglwysig mawr, ac yn arweinydd cenedlaethol ym mrwydrau addysg dirwestol a gwleidyddiaeth.

Awdur

Y Parchedig Edward Tegla Davies, (1880 - 1967)

Ffynonellau

O. M. Roberts, *Cofiant y Parch. Hugh Jones, D.D* (Bangor 1934), 1934

Yr Eurgrawn Wesleyaidd coffa, Gorffennaf 1919

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 78564793

Wikidata: Q20733195

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, E. T., (1953). JONES, HUGH (1837 - 1919), gweinidog Wesleyaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-HUG-1837>

Copïo'r

Preifatwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government